

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 30^{ain}
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mercher – 3^{ydd}
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
 - Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Trebor neu Glenys (870221) **erbyn dydd Sul (30ain)**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 7^{fed}
- Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch yn Llansannan am 10.00 a bydd paned i ddilyn. Gwerthfawrogir cyfraniadau tuag at y Banc Bwyd.
 - Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mercher – 10^{fed}
- Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn y Sul blaenorol**, os gwelwch yn dda.
- Sul canlynol – 14^{eg}
- Bydd y Parch. Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
 - Cynhelir Oedfa Diolchgarwch yn Nantglyn am 2.00 o dan arweiniad y Parch. Dafydd Rees Roberts.

I ddod

- **CYMDEITHAS LLANSANNAN** – Sgwrs a lluniau gwych "Natur drwy'r flwyddyn" yng nghwmni Eifion a Myfyr Griffiths yn Festri Llansannan nos Lun, Hydref 15fed am 7.30.
- **GŴYL DDIOCHGARWCH CAPEL LLANNEYDD** – Cynhelir Swper a Sgwrs yn Neuadd Llanefydd nos Fercher, Hydref 17eg am 7.00. Sgwrs gan y Parch. Aneurin Owen. Enwau i Manon, Bryn Deunydd erbyn dydd Sul, Hydref 14eg, os gwelwch yn dda. Oedolion: £2 Plant: £1.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, Medi 30^{ain}, 2018

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i bawb ohonoch i'n gwasanaethau ar draws Bro Aled. Heddiw, byddwn yn ystyried y cwestiwn – beth yw bywyd tragwyddol? Ac unwaith eto, byddwn yn troi at wefan www.gotquestions.org am ysbrydoliaeth. Cofiwch, os oes cwestiynau penodol yr hoffech inni ymdrechu i'w hateb yn y dyfodol, croeso cynnes i chi eu gyrru i mi ar y cyfeiriad e-bost sydd ar waelod y dudalen ôl.

Bywyd tragwyddol – term sy'n cael ei ddefnyddio lawer gwaith mewn oedfaon ar draws Cymru ond beth yn union mae'n ei olygu? Miliynau o flynyddoedd yn y nefoedd gyda'r angylion? Dyna'r darlun poblogaidd o bosib, ond nid yw'n cyd-fynd yn llawn â phwyslais y Beibl. Wrth i ni droi at Air Duw, gwelwn fod bywyd tragwyddol yn ymwneud yn uniongyrchol â'n perthynas â Duw, ac yn arbennig felly â'i Fab Iesu Grist. Wrth gwrs mae'r term tragwyddoldeb yn cyfeirio at y goruwchnaturiol, y tu allan i amser fel yr ydym ni yn ei brofi a'i ddeall o ddydd i ddydd, ond mae bywyd tragwyddol yn y Beibl hefyd yn ymwneud ag ansawdd bywyd gyda'r Arglwydd a'n creodd. Rhodd gan Dduw yw bywyd tragwyddol sy'n golygu na fydd y rhai sy'n ei dderbyn yn wynebu marwolaeth dragwyddol (sef pen draw naturiol pechod yn ôl Rhufeiniaid 6:23).

Sut felly y gallwn ni dderbyn bywyd tragwyddol? Ateb clir y Testament Newydd yw y gallwn dderbyn y rhodd hwn os ydym yn derbyn Iesu Grist trwy ffydd. Dyma grynoded gofiadwy llythyr cyntaf Ioan 'Y sawl y mae'r Mab ganddo, y mae'r bywyd ganddo; y sawl nad yw Mab Duw ganddo, nid yw'r bywyd ganddo.' (1 Ioan 5:11) Ac wrth ystyried hyn, mae'n hyfryd sylweddoli bod y rhodd o fywyd tragwyddol ar gael heddiw i'r Cristion, ac nid yw'n rhywbeth y mae angen disgwyl amdano wedi marwolaeth. Eto mae geiriau Ioan yn gymorth mawr: 'Pwy bynnag sy'n credu yn y Mab, y mae bywyd tragwyddol ganddo...' (Ioan 3:36) Sylwer mai yn y presennol y mae Ioan yn sôn am gael bywyd, ac nid rhywbryd yn y dyfodol.

Daeth Iesu, Mab Duw i'r byd a bu farw dros bechod a choncro marwolaeth trwy atgyfodi. Iddo Ef y rhoddwyd yr awdurdod i roi bywyd tragwyddol i eraill. A'r rhai sy'n derbyn bywyd yw'r rhai sy'n ymddiried yng Nghrist ac yn ei adnabod: 'A hyn yw bywyd tragwyddol: dy adnabod di, yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonai ti, Iesu Grist.' (Ioan 17:3) Golyga hyn os ydym yn gofyn i ni'n hunain oes gen i fywyd tragwyddol, mae'r ateb yn dibynnu ar ydym ni'n adnabod Duw trwy Iesu. Cofiwch nad yw gwybod am Iesu ar ei ben ei hun yn ddigon – mae hyd yn oed y cythreuliaid yn gallu rhoi disgrifiad digon cywir o bwy yw Iesu! (Mathew 8:29) Ond mae'r crediniwr yn un â'i Waredwr ac yn gwybod nad oes 'dim yn y bydysawd yma greodd Duw yn gallu'n gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yn ein Harglwydd ni, y Meseia Iesu!' (Rhufeiniaid 8:39 Beibl.net)

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 30^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** am 6.00 gyda Sarah yn arwain a'r Parch. John Derek Rees yn pregethu.
- Mercher – 3^{ydd} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Iau – 4^{ydd} ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Sadwrn – 6^{ed} ➤ **Aduniad Llanw** yng Ngholeg y Bala. Mae croeso i ffrindiau newydd hefyd er mwyn i eraill gael blas o'r Wyl. Os nad ydych eisoes wedi rhoi eich enw, cysylltwch ar fyrder trwy ebost: ymholiadau@llanw.org neu drwy ffonio Angharad ar 07966 790181.
- Sul nesaf – 7^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion Dafydd, a bydd y Parch. Emyr James yn pregethu.
- Mercher – 10^{fed} ➤ **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.
- Iau – 11^{eg} ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
➤ **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.00.
- Gwener – 12^{fed} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Sul canlynol – 14^{eg} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 30^{ain} ➤ Bydd y Parch. Robert O. Roberts yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog **am 10.00** (*sylwch ar y lleoliad a'r amser gwahanol i'r arfer*) a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.
- Sul nesaf – 7^{fed} ➤ Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yno am 2.00.
- Mawrth – 9^{fed} ➤ Cinio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul canlynol – 14^{eg} ➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 30^{ain} ➤ Bydd y Parch. John Derek Rees yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 7^{fed} ➤ Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant a'r Ieuenctid yn Saron am 10.00 a chesglir nwyddau i'r Banc Bwyd. Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Iau – 11^{eg} ➤ Cynhelir Oedfa Diolchgarwch Saron am 7.00 gyda Mr Alun Jones yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- Sul canlynol – 14^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 30^{ain} ➤ Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00 a bydd y Parch. John Derek Rees yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 7^{fed} ➤ Cynhelir Oedfa Thema i'r daith yn Henllan am 10.00 ac Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Llun – 8^{fed} ➤ Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch gyda phlant yr ysgol am 2.00 a bydd Sioned Williams yn rhoi sgwrs i'r plant. Bydd y Parch Gareth Edwards yn pregethu am 7.00 yr hwyr.
- Sul canlynol – 14^{eg} ➤ Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 30^{ain} ➤ Bydd y Parch. John Pritchard yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 7^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 10.00.
- Sul canlynol – 14^{eg} ➤ Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00 a bydd y Parch. Helen Wyn Jones yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00.